# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** | **DEMOCRATIC SERVICES COMMITTEE** |
| **DYDD IAU, 25 TACHWEDD 2021 am 10.30 o'r gloch** | **THURSDAY, 25 NOVEMBER 2021 at 10.30 am** |
| **CYFARFOD RHITHWIR WEDI'I FFRYDIO'N FYW (AR HYN O BRYD NID OES MODD I'R CYHOEDD FYNYCHU)** | **VIRTUAL LIVE STREAMED MEETING (AT PRESENT MEMBERS OF THE PUBLIC CANNOT ATTEND)** |
| **Swyddog Pwyllgor** | **Shirley Cooke 01248 752514** **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

John Griffith, Vaughan Hughes (Is-Gadeirydd/Vice-Chair), R G Parry OBE, Dylan Rees, Nicola Roberts

**Y Grŵp Annibynnol / The Independent Group**

Richard Griffiths, Dafydd Roberts

**Plaid Lafur Cymru / Wales Labour Party**

J Arwel Roberts

**Annibynnwyr Môn / Anglesey Independents**

Eric Jones, R Llewelyn Jones (Cadeirydd/Chair)

# R H A G L E N

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2 PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL - ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT AR GYFER 2022/23** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| **Dyddiad:** | 25 Tachwedd 2021 |
| **Teitl yr adroddiad:** | Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Adroddiad Blynyddol Drafft ar gyfer 2022/23 |
| **Adroddiad gan:** | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Adroddiad ar gynigion drafft y Panel ar gyfer 2022/23 |

## 1.0 Cefndir

Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel) yn annibynnol ar lywodraeth ganolog a lleol ac fe'i sefydlwyd yn y lle cyntaf i benderfynu ystod a lefelau lwfansau sy'n daladwy i gynghorwyr cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol ac i aelodau cyfetholedig â hawliau pleidleisio. Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Panel lunio Adroddiad Blynyddol sy'n nodi'r math a'r lefelau o daliadau y mae awdurdodau'n gallu neu'n gorfod eu gwneud i'w haelodau ac i aelodau cyfetholedig.

Mae Adroddiad Blynyddol Drafft y Panel ar gyfer 2022/23 wedi'i gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad hyd at 26 Tachwedd 2021. Cyhoeddir yr adroddiad terfynol ym mis Chwefror 2022.

## 2.0 Amserlen Gweithredu Penderfyniadau'r Panel

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i Adroddiad Blynyddol y Panel ddod i rym o 1 Ebrill. Fodd bynnag, pan fydd cynghorau newydd yn cael eu hethol bydd rhai o benderfyniadau'r Panel yn effeithiol ar gyfer tymor newydd y Cyngor. Felly mae dau ddyddiad gweithredu gwahanol i Adroddiad Blynyddol 2022/23, sef:

- Bydd yr holl benderfyniadau yn Adroddiad Blynyddol 2021/22 yn parhau i fod yn weithredol am y cyfnod rhwng 1 Ebrill ac 8 Mai 2022.

- Bydd y penderfyniadau yn Adroddiad Blynyddol 2022/23 yn weithredol o 9 Mai 2022.

Amlinellir isod y newidiadau sy'n bethnasol i'r Cyngor hwn.

## 3.0 Cyflog Sylfaenol

Cynigir cynnydd yn y cyflog sylfaenol yn 2022/23 ar gyfer aelodau etholedig prif gynghorau, gan fynd o £14,368 i **£16,800.**



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

## 4.0 Uwch Gyflogau

### 4.1 Nifer yr uwch gyflogau

Mae'r adroddiad drafft yn nodi y bydd y cyfyngiad ar nifer yr uwch gyflogau sy'n daladwy ("y cap") yn dal i sefyll, hy cyfanswm o 16 i Ynys Môn. Mae'r cyfanswm yn cynnwys cyflogau dinesig.

Bydd angen i'r Panel ddiweddaru'r adroddiad i gydfynd â'r Gorchymyn Statudol a ddaeth i rym ym mis Hydref 2021, sy'n cynyddu nifer yr aelodau etholedig ar y Cyngor i 35.

### 4.2 Y Bandiau uwch gyflogau

Bydd uwch gyflogau a chyflogau dinesig yn cynyddu fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| **Uwch Gyflogau a Chyflogau Dinesig 2022/23** (gan gynnwys y cyflog sylfaenol) | | **1 Ebrill – 8 Mai 2022** | **O 9 Mai 2022** |
|---|---|---|---|
| **Uwch Gyflogau** | | | |
| Band 1 | Arweinydd<br><br>Dirprwy Arweinydd | £44,921<br><br>£31,783 | £53,550<br><br>£37,485 |
| Band 2 | Aelodau o'r Pwyllgor Gwaith | £27,741 | £32,130 |
| Band 3 | Cadeiryddion Pwyllgorau (os y'u telir) | £23,161 | £25,593 |
| Band 4 | Arweinydd y grŵp gwrthbleidiol mwyaf | £23,161 | £25,593 |
| Band 5 | Arweinwyr grŵpiau gwleidyddol arall | £18,108 | £20,540 |
| **Cyflogau Dinesig** (os y'u telir) | | | |
| Band 3 | Pennaeth Dinesig | £23,161 | £25,593 |
| Band 5 | Dirprwy Bennaeth Dinesig | £18,108 | £25,540 |

## 5.0 Cynorthwywyr i'r Pwyllgor Gwaith

Mae'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn galluogi cynghorau i benodi aelodau etholedig i gynorthwyo'r Pwyllgor Gwaith i gyflawni ei swyddogaethau. Gwneir penodiadau o'r fath gan Arweinydd y


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

Cyngor. Mae eithriadau fel y nodwyd yn y ddeddfwriaeth ac nid yw cynorthwywyr yn aelodau o'r Pwyllgor Gwaith.

Mae'r Panel wedi ystyried materion cydnabyddiaeth tâl ar gyfer aelodau sydd wedi'u penodi fel cynorthwywyr y Pwyllgor Gwaith ond wedi dod i'r casgliad nad yw'n bosibl penderfynu ar daliadau ychwanegol, os o gwbl, nes y bydd rhagor o wybodaeth ar gael ynglŷn â dyletswyddau'r swyddi. Felly, cynigir y bydd hyn yn cael ei ystyried ymhellach pan fydd cyngor yn penderfynu penodi a phan fydd manylion y cyfrifoldebau penodol ar gael. I weithredu hyn heb fod angen adroddiad ffurfiol pellach, bydd y penderfyniad a ganlyn yn berthnasol:

**"***Penderfyniad 13: Bydd y Panel yn penderfynu fesul achos ar yr uwch gyflog priodol, os o gwbl, ar gyfer cynorthwywyr y weithrediaeth."*

## 6.0 Goblygiadau Ariannol

Bydd lefel y cynnydd yn y lwfansau a gynigir gan y Panel yn cynyddu costau i gynghorau. Mewn perthynas ag Ynys Môn, gyda 35 o Aelodau ar ôl yr Etholiadau lleol, rhagwelir y bydd hyn oddeutu £180,000 y flwyddyn. (Ar gyfer 2022/23, bydd y lwfansau newydd yn daladwy o fis Mai 2022). Mae derbyn lwfansau yn fater o ddewis i'r Aelodau unigol, er bod y Panel yn annog hyn.

## 7.0 Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y penderfyniadau drafft o fewn adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2022/23 ac os yw'r Pwyllgor yn dymuno ymateb i'r ymgynghoriad.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**
**18.11.21**

Papur Cefndirol: Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, 2022/23:
https://llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-drafft-2022-i-2023


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

This page is intentionally left blank